**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 20 Gorffennaf 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Philip Roberts, Beca Brown, Richard Robinson, Berwyn Parry Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Iola Parry, Haf Williams

**Hefyd yn bresennol**: Mr Gareth Roberts o Menter Fachwen
Mrs Lowri Gwyn o gwmni cyfieithu Lingo

**Aelod o'r cyhoedd:** Susan Taylor

**838. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am eu presenoldeb

**839. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**840. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**841. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Mehefin 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**842. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Dim

**843. I gadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd 1af o Orffennaf 2021**

Cadarnhawyd yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**844. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion**

Dim

**845. I gyfethol aelod ar gyfer sedd wag sydd ar y cyngor dros ward Llanrug ac i gymeradwyo'r clerc wneud y trefniadau priodol.**

**Penderfynwyd:** Cyfethol y Cynghorydd Berwyn Parry Jones dros ward Llanrug ar y cyngor cymuned a'r clerc i wneud y trefniadau perthnasol

## 846. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor y fynwent

Adroddwyd gan y Cynghorydd Phil Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y gwaith iechyd a diogelwch yn dilyn asesiad risg yn parhau. Mae'r rhai sydd wedi ei effeithio yn cysylltu a'r clerc i ofyn am fanylion. Mae enghraifft o bobl wedi tynnu stêc o tu ôl i'r gofeb a'i thaflu wedi codi ben.

Hyd yn hyn, mae tua 25 o bobl wedi cysylltu, gyda'r mwyafrif yn rhesymol a call dros y gwaith sydd wedi ei wneud ac un gwyn sydd wedi ei dderbyn hyd yma.

Y cam nesaf, fydd i roi llythyr unigol ar bob stêc i ofyn i ymwelwyr gysylltu a'r cyngor a bydd cyhoeddusrwydd pellach yn cael ei roi i hyn. Rhagdybi bydd hyn yn cymryd lle o gwmpas mis Medi.

Adroddwyd ymhellach fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi gwneud nifer o benderfyniadau

- Wedi derbyn cynrychiolaeth a cyfarfod ac un o'r ymgymerwyr lleol, penderfynwyd diddymu'r amod ar yr hawl i osod cofeb mai dim ond aelodau o BRAMM fyddai yn gallu gwneud y gwaith. Nodwyd fod yn angenrheidiol i'r gwaith fod wedi wneud i safon BS8415 a bydd angen tystysgrif gan y saer maen yn cadarnhau fod hyn wedi ei wneud. Bydd angen addasu'r ffurflenni cyfredol i adlewyrchu hyn.

- Parhau a'n cais yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn

- Mae'n fwriad gan y pwyllgor gyfarfod cyn y cyfarfod llawn nesaf i addasu rheolau'r fynwent

- Yn y broses o roi blociau yn y fynwent yn nodi'r gofod. Bydd hyn yn helpu pobl i adnabod y gofodau. Bydd pob gofod wedi ei nodi A – I.

- Mae'r broses o'r cyngor cymuned gymryd drosodd cyfrifoldeb am mynwent yr Eglwys yn parhau.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a cymeradwyo penderfyniadau'r pwyllgor

## 847. I benderfynu ar ddyddiad i lansio system chwilio'r fynwent yn swyddogol i'r cyhoedd

Adroddwyd gan y clerc fod y system yn 'fyw' nawr a gellir ei defnyddio ond fod angen penderfynu ar ddyddiad lansio.

**Penderfynwyd:** Aros hyd nes bydd y placiau yn nodi'r gofod yn eu lle cyn lansio'r system

## 848. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac fe drafodwyd y canlynol

- Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Phillip Roberts yn Is-gadeirydd
- Angen symud ymlaen gyda cytundeb cyflogaeth y clerc
- Nodwyd fod gwaith fydd angen ei wneud yn y fynwent angen ei ariannu gan y cyngor ac bydd angen ystyried benthyg arian i gyflawni'r gwaith
- Nodwyd nad oes ceisiadau yn dod i law oddi tan cynllun grant dewisol y cyngor ar hyn o bryd ac fod angen trosglwyddo arian o'r cyfrif 'Poor House'. Ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu symud ymlaen gyda hyn.
- Adroddwyd fod y Cynghorydd Cemlyn Jones wedi gweld giât ar wefan ond fod angen sicrhau ei bod yn addas cyn ei archebu
- Biniau baw cŵn – anodd penderfynu faint o arian sydd angen ei neilltuo oherwydd rydym yn parhau i ddisgwyl ymateb oddiwrth Cyngor Gwynedd
- Goleuadau Nadolig – mynegwyd pryder am y gytundeb o 5 mlynedd ac efallai bydd angen torri lawr ar y goleuadau. Penderfynwyd cysylltu a busnesai lleol i holi os byddent yn fodlon cyfrannu tuag atynt.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

## 849. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod felly doedd ddim wedi ethol cadeirydd.

Adroddwyd fod asesiadau risg y caeau chwarae wedi ei dderbyn a cytunwyd i drefnu cyfarfod o'r pwyllgor hamdden yn Cwm y Glo am 6:00 yh ar Nos Lun 26 o Orffennaf i fynd drwyddynt.

Cytunwyd fod angen symud ymlaen a giât ar gyfer Dolafon

Penderfynwyd gofyn wrth ein contractwr os y gall ei gosod.

Nodwyd hefyd fod bag o grafel yn parhau i fod ar y parc sglefrio

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

## 850. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod dim llawer o newid wedi bod yn y cynllun na'r trefniadau yn ddiweddar. Nodwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod a criw Tyddyn Teg gyda'r bwriad o ddarparu bocs o lysiau i'r rhai sydd yn derbyn pecynnau bwyd ac hyn gyda cynllun ar y cyd gyda Prifysgol Caerdydd.

Nodwyd ein bod wedi derbyn palet o duniau bwyd yn cynnwys eog, ffrwythau ac fod rhain wedi cludo i'r hen ysgol yn Cwm y Glo ac yn cael eu rhannu yn wythnosol.

Mae bagiau plastig yn parhau yn brin a byddai unrhyw gyflenwad y gellir ei dderbyn yn dderbyniol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**851. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Hunan Wasanaeth**

Mae posib archebu gwasanaeth gan y cyngor sir trwy eu wefan rŵan, neu trwy app ar eich ffôn symudol. Mae'r gwasanaeth yma yn dal i ddatblygu ac mae posib archebu mwy a mwy o wasanaethau neu gwaith trwy y dull hyn. Hyd at 40 o wahanol wasanaethau erbyn hyn. Mae mwy yn cael eu ychwanegu o hyd. Mae'n hwylus i'r cwsmer ac yn rhatach i'r cyngor.

**Cynllun Datblygu Lleol**

Cafwyd cyfarfod arbennig o'r cyngor llawn i drafod yr adolygiad i'r cynllun sydd yn digwydd ar ôl pedair mlynedd sef yr haf yma. Roedd teimlad fod yr amserlen i gwblhau y gwaith yn llawer rhy hir, sef 3 mlynedd, gan gofio yr argyfwng tai sydd yn ein wynebu. Penderfynwyd ysgrifennu at Llywodraeth Cymru i weld oedd posib lleihau yr amser. Erbyn hyn mae ateb wedi dod gan y Llywodraeth yn dweud fod yr amserlen yn statudol ac fydd rhaid dilyn y canllawiau.

**Biniau Halen**

Llawer o anniddigrwydd wedi bod gyda'r gwasanaeth neu y ffaith ei fod yn cael ei basio i lawr i'r Cynghorau Cymuned. Cynghorau yn gweld y gost o ail lenwi biniau yn ddrud iawn, rhai yn dal i dderbyn gwasanaeth, eraill ddim. Hefyd mae na gwynion ei fod yn annheg, e.e Llanddeiniolen hefo 62 o finiau a Bangor Caernarfon hefo 11 yr un. Felly mae na adolygiad o'r gwasanaeth yn mynd i fod, i weld beth yw y posibiliadau.

**Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus**

Mae'r awdurdod wedi bod yn casglu gwybodaeth gan y cyhoedd am eu defnydd o'r bysiau, llawer o holiaduron wedi ei llenwi ar lein, staff wedi trafaelio ar y bysiau i holi y defnyddwyr. Fe cafwyd dros 2000 o ymatebion. Felly fe gomisiynwyd Prif Ysgol Bangor i ddadansoddi y holiaduron ac hefyd i rhoi gwerth cymdeithasol i bob llwybr bys. Braf dweud fod rhif 88 wedi dod allan hefo'r gwerth cymdeithasol ail uchaf yng Ngwynedd. Mae'r adran rŵan yn awyddus i adolygu addasrwydd y rhwydwaith presennol. ac hefyd i dreialu ffyrdd gwahanol mewn rhai ardaloedd, e.e. tacsi ar alw, ay.b. Mae yr adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.

**Yn Lleol**

**Cylchfan Brynrefail**

Dal i ddisgwyl i'r gwaith gwblhau. Y diweddaraf rwyf wedi gael ydi fydd y gwaith ar y gylchfan yn gorffen 30 o Orffennaf, ac bydd angen wythnos ychwanegol i gwblhau y llwybr troed / beics, sef gorffen ar y 7fed o Awst.

**Cyflymder rhwng Cwm y glo a Llanrug**

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi gorchymyn fod cyflymder rhwng Cwm y glo a Llanrug yn dod i lawr o 50mya i 40mya, ac mae hyn yn weithredol o 19 Gorffennaf. Yr arwyddion ddim i fyny eto.

**Symud arwydd 30 mya i le gwell ar allt Ceunant.**

Y swyddog oedd yn delio hefo hwn wedi gadael y cyngor, ond wedi cael addewid fod swyddog arall yn delio hefo fo rŵan, ac fe ddylai pethau symud yn ei flaen yn fuan.

**Offer yn cae chware Dol afon**

Pobol yn teimlo fod ddim digon o offer yn cae chware Dol afon e.e. dim ond un "swing"

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**852. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Adroddiad i ddilyn

**853. I ystyried cais gan Menter Fachwen parthed potensial am fap ac arddangosfeydd hanesion Llanrug a Cwm y Glo ac i dderbyn cyflwyniad gan Mr Gareth Roberts o Menter Fachwen**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Gareth Roberts o Menter Fachwen ar y cynllun o ddiweddaru mapiau ar gyfer yr ardal. Byddai hyn yn gyfle i ddiweddaru y mapiau presennol ac eglurodd Mr Roberts ei fod wedi gwneud tipyn o waith gyda ardaloedd eraill.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y cyflwyniad

**854. I ystyried i diweddara ar giât i gae chwarae Dolafon ac i benderfynu ar y cam nesaf.**

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen ac archebu giât fyddai yn galluogi pramiau ayyb fynd i gae chwarae Cwm y Glo

**855. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0597/23/AC
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Diwygio amod rhif 3 ar ganiatad C20/1043/23/DT er mwyn diwygio ffenestri ochr ac i flaen ty annedd

**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Rolant Wynne
**Cyfeiriad:** Fron Hyfryd Uchaf Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BE
**Cyfeirnod Grid:** 253979.21, 363724.43
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:**C21/0586/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer darparu adeilad cymeriant prif gyflenwad ar gyfer y parc gwyliau
**Asiant:** Miss Wendy Sockett (WS Planning)
**Ymgeisydd:** Park Leisure 2000 Ltd
**Cyfeiriad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF
**Cyfeirnod Grid:** 254144.75, 362359.19
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**856. I ystyried cais gan Gyngor Cymuned Llandygai am gynnal cyfarfod gyda prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod diffyg ymateb i bryderon sydd wedi cyflwyno tuag at Gyngor Gwynedd.**

Nodwyd fod ymateb i rai o faterion mae'r cyngor yn ddwyn ger bron Cyngor Gwynedd yn araf iawn yn cael ymateb. Ymddengys mae hyn ydi'r sefyllfa mae sawl cyngor cymuned a thref arall traws Gwynedd. Mae Cyngor Cymuned Llandygai wedi gofyn am gefnogaeth cynghorau cymuned a thref traws Gwynedd i gyfarfod a Prif Weithredwr i leisio pryder am y gwasanaeth a dderbynnir.

**Penderfynwyd:** Croesawir trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr i drafod diffyg ymateb gan y cyngor

Daeth y cyfarfod i ben am 20:55

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: